Rhif: WG37966

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol
Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir

Mehefin 2019

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL (h) Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83876-318-3

Cynnwys

Rhif y dudalen.

- Cyflwyniad 1
- Trosolwg o'r ymatebion i bob cwestiwn 2
- Ymateb Llywodraeth Cymru 19
- Y Camau Nesaf 21

Atodiad 1 – Rhestr o'r ymatebwyr 22

Cyflwyniad

1. Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos ar gyfer ‘Materion, Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir’ y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FfDC) rhwng 30 Ebrill a 23 Gorffennaf 2018. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ac ymateb Llywodraeth Cymru ac yn nodi'r camau nesaf.

Beth oedd dan sylw yn yr ymgynghoriad hwn?

2. Ceisiodd yr ymgynghoriad farn ar y materion, yr opsiynau a'r opsiwn a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer llunio'r FfDC a fydd yn gynllun gofod cenedlaethol 20 mlynedd i Gymru. Nododd y ddogfen ymgynghori y materion lefel uchel ar gyfer yr 20 mlynedd nesaf a sut y gallai'r FfDC fynd i'r afael â nhw.

Cyhoeddusrwydd

3. Cysylltwyd â rhanddeiliaid o restr ymgynghori graidd a ddelir gan Gyfarwyddiaeth Gynllunio Llywodraeth Cymru a hefyd drwy gylchlythyr y FfDC. Roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys pob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru, ynghyd â chyrff cyhoeddus perthnasol, busnesau, grwpiau buddiant arbennig a chyrff proffesiynol. Cyhoeddwyd dogfennaeth yr ymgynghoriad ar wefan ymgynghori Llywodraeth Cymru hefyd a chynhaliwyd sesiynau galw heibio i'r cyhoedd ledled Cymru yn ystod mis Mai a mis Mehefin 2018. Ceir rhagor o fanylion drwy ddilyn y dolenni canlynol:

   Ymgynghoriad: https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2018-05/180430-dogfen-ymgynghori-materion-opsiynau-ar-opsiwn-a-ffefrir.pdf
   Cymryd rhan: https://gweddill.gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/getting-involved/?skip=1&lang=cy

Yr ymatebion

4. Cafwyd cyfanswm o 86 o ymatebion i'r ymgynghoriad. Roedd yr ymatebwyr wedi'u rhannu'n gyfartal, fwy neu lai, rhwng y categorïau sefydliadol gwahanol, gyda dim ond 6% o'r categorïau ‘Unigolyn preifat’ ac ‘Arall’. Rhestrir yr ymatebwyr yn Atodiad 1.

5. Mae pob un o'r ymatebion wedi'u hystyried yn llawn a byddant yn llywio cam nesaf y broses o lunio'r FfDC.

Y cam nesaf

6. Y cam nesaf yw llunio'r FfDC drafft, a bwriedir ymgynghori ymhellach â'r cyhoedd yn unol â'r Datganiad o Gyfranogiad y Cyhoedd.

Trosolwg o'r ymatebion i bob cwestiwn

Cwestiwn 1a – A oes gennych sylwadau ynglŷn â chanfyddiadau Adroddiad Interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig?



7. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi canfyddiadau Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig. Roed rhai ymatebwyr o'r farn bod diffyg gwybodaeth a manylion gofodol, yn enwedig o ran sut y bydd y FfDC yn gweithredu mewn perthynas â chynlluniau datblygu haen is. Fodd bynnag, cydnabuwyd hefyd mai dogfen lefel uchel oedd hon ac y câi'r manylion eu hystyried yn ystod cam nesaf y broses o lunio'r FfDC.

8. Fodd bynnag, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn ddigon eglur ynghylch sut roedd rhai materion wedi cael eu hasesu. Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â materion amgylcheddol, gyda'r ymatebwyr yn ystyried bod yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn canolbwyntio'n fwy ar sicrhau'r canlyniadau cymdeithasol ac economaidd gorau posibl.

9. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y ffordd roedd yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig wedi cael ei baratoi. Ar y cyfan, ystyriwyd bod y broses hon wedi bod yn un gydweithredol ac roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r gweithgarwch ymgysylltu a oedd wedi cael ei gyflawni.

Cwestiwn 1b – A oes gennych sylwadau ynglŷn ag Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?



10. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cytuno ag Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Gwnaed rhai sylwadau a oedd yn ymwneud yn benodol â pholisi ac a fydd yn llywio'r cam nesaf, sef y cam 'sgrinio'. Hefyd, mynegwyd y farn bod angen nodi sut y caiff penderfyniadau eu gwneud pan fwriedir gohirio'r asesiad i gynlluniau haen is. At hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am faterion megis pellteroedd clustogi, geoamrywiaeth, tirweddau na'r iaith Gymraeg.

Cwestiwn 2a - A ydych yn cytuno bod Gweledigaeth y FfDC yn glir, yn uchelgeisiol ac yn realistig?



11. Roedd yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn wedi'u rhannu'n gyfartal, fwy neu lai, rhwng y rhai a oedd naill ai'n cytuno (27%) neu'n anghytuno

(24%) â'r gosodiad bod Gweledigaeth y FfDC yn glir, yn uchelgeisiol ac yn realistig. Mwy cymysg fu barn yr ymatebwyr eraill, gyda bron hanner (49%) y rhai a atebodd yn nodi nad oeddent yn cytuno nac yn anghytuno â Gweledigaeth y FfDC.

12. Fodd bynnag, drwy eu sylwadau, ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi Gweledigaeth y FfDC ac ystyriwyd ei bod yn cyflwyno safbwynt hirdymor clir gyda chysylltiadau â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mynegwyd y farn hefyd fod angen mwy o eglurder rhwng Gweledigaeth y FfDC a'i amcanion. Roedd eraill am gael mwy o eglurder ynghylch sut y câi'r Weledigaeth ei gwireddu a sut y byddai'n dylanwadu ar ddewisiadau gofodol.

13. Roedd sylwadau eraill yn canolbwyntio'n fwy ar edrych ymlaen at y FfDC ei hun, gan godi pwyntiau manwl ynghylch nifer o feysydd pwnc penodol. Codwyd materion megis y cysylltiad â *Pholisi Cynllunio Cymru* a rôl y FfDC mewn prosesau gwneud penderfyniad hefyd.

Cwestiwn 2b – A ydych yn credu bod angen unrhyw newidiadau i Weledigaeth y FfDC? Os oes, pa newidiadau sydd eu hangen?



14. Roedd y mwyafrif (66%) o'r rhai a ymatebodd i'r cwestiwn hwn o'r farn bod angen gwneud newidiadau i Weledigaeth y FfDC. Mynegodd cryn nifer o'r ymatebwyr y farn bod angen i Weledigaeth y FfDC fod yn fwy penodol, gofodol a chyflawnadwy o fewn amserlen o 20 mlynedd. Yn gysylltiedig â hyn, roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod y Weledigaeth yn rhy oddefol o ran y ffordd y mae'n cael ei mynegi ac, yn lle hynny, y dylai nodi canlyniadau pendant a'r hyn y mae angen iddo newid er mwyn eu cyflawni.

15. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn na ddylai Gweledigaeth y FfDC geisio ailadrodd y nodau Llesiant a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ond, y lle hynny, y dylai ganolbwyntio ar yr hyn a all gael ei gyflawni'n realistig gan y system gynllunio. Ar y llaw arall, nododd

ymatebwyr eraill fod angen cysylltu'r Weledigaeth yn gliriach â'r nodau Llesiant.

16. Hefyd, holodd rhai ymatebwyr ynghylch y tri rhanbarth a ddewiswyd a'r gydberthynas rhwng y FfDC a'r cynlluniau haen is. Yn hyn o beth, mynegodd rhai ymatebwyr bryder bod y Weledigaeth yn paratoi'r ffordd i flaenoriaethau rhanbarthol gael eu pennu ar lefel genedlaethol yn hytrach na'u seilio ar waith a wneir gan y rhanbarthau.

17. Hefyd, awgrymodd ymatebwyr newidiadau i gynnwys mwy o fanylion yng Ngweledigaeth y FfDC am nifer o feysydd pwnc penodol.

Cwestiwn 3a – A ydych yn cytuno ag Amcanion y FfDC?



18. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr o'r farn bod angen atgyfnerthu'r amcanion mewn sawl ffordd a chynigiodd rhai ymatebwyr amcanion ychwanegol (gweler Cwestiwn 3b isod). Yn benodol, ystyriwyd bod angen llunio'r amcanion i gynnwys canlyniadau clir er mwyn iddynt allu cael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol. Yn gysylltiedig â hyn, ystyriwyd bod angen mwy o gysondeb o ran strwythur a chynnwys yr amcanion – roedd rhai amcanion yn seiliedig ar ganlyniadau tra bod eraill yn ddatganiadau mwy cyffredinol a phenagored o fwriad.

19. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod diffyg cysylltiad rhwng Gweledigaeth y FfDC, yr amcanion a'r nodau Llesiant. Mynegwyd y farn hefyd fod diffyg eglurder o ran sut mae amcanion y FfDC yn cyd-fynd â'r amcanion a nodir mewn dogfennau eraill, yn enwedig *Polisi Cynllunio Cymru* a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

20. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod angen lleihau nifer yr amcanion er mwyn osgoi'r risg y byddant yn gwrthdaro â'i gilydd, tra bod eraill o'r farn bod rhai o'r amcanion y tu allan i gwmpas y system gynllunio ac, felly, na allai ddylanwadu arnynt na'u cyflawni.

21. Cododd rhai ymatebwyr amheuon ynghylch y ffordd roedd rhai o'r amcanion wedi'u mynegi. Roedd yr ymatebwyr hyn o'r farn bod angen i'r iaith fod yn fwy cadarnhaol er mwyn dynodi camau gweithredu mwyn uniongyrchol drwy'r FfDC.

22. Nododd ymatebwyr hefyd fod angen esbonio ac egluro rhywfaint o'r derminoleg. Yn benodol, cyfeiriwyd at yr angen i esbonio sut mae 'creu lleoedd' yn ategu'r opsiwn a ffefrir ar gyfer y FfDC ac esbonio'r meini prawf ar gyfer penderfynu bod ardal yn un 'wledig'.

Cwestiwn 3b – A ydych yn credu bod angen amcanion eraill? Os ydych, beth yw'r amcanion hynny?



Cwestiwn 3c – A ydych yn credu y dylid diwygio neu ddileu unrhyw rai o Amcanion y FfDC?



23. Roedd cynigion yr ymatebwyr ar gyfer amcanion newydd a diwygiedig yn cwmpasu amrywiol agweddau ar amrywiaeth o bynciau. Yn benodol,

gwnaed sylwadau ac ychwanegiadau/diwygiadau o sylwedd ynglŷn â'r pynciau canlynol:

- seilwaith gwyrdd
- yr iaith Gymraeg
- trafnidiaeth
- tai
- gwastraff
- twristiaeth
- Cymru wledig
- cymunedau cydlynol
- newid yn yr hinsawdd
- adnoddau naturiol
- yr arfordir

Cwestiwn 3d – A oes gennych sylwadau ynglŷn â'r asesiad o Amcanion y FfDC fel y mae wedi'i nodi yn Adroddiad Interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig?



24. Nid atebodd cyfran fawr (71%) o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn neu gwnaethant nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r asesiad o amcanion y FfDC fel y mae wedi'i nodi yn adroddiad interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.

25. Cymysg fu barn yr ymatebwyr hynny na wnaethant ateb y cwestiwn. Roedd rhai o'r farn bod adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn dangos yn glir sut roedd amcanion y FfDC wedi cael eu hasesu yn erbyn amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a sut roeddent yn cyd-fynd yn dda â'r nod o wella llesiant, tra bod eraill o'r farn bod hyn yn aneglur. Codwyd amheuon hefyd ynghylch amcanion penodol yn yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig.

Cwestiwn 4a – A ydych yn cytuno bod Opsiynau'r Fframwaith wedi cael eu hystyried yn briodol, er mwyn canfod eu prif gryfderau a gwendidau, a bod yn sail i'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC?



26. Cymysg fu barn yr ymatebwyr ynghylch y ffordd y cafodd yr opsiynau eu datblygu a'u hasesu er mwyn penderfynu ar yr 'Opsiwn a Ffefrir'. Roedd yr ymatebwyr hynny a oedd yn cytuno â'r dull gweithredu a fabwysiadwyd o'r farn ei fod yn synhwyrol ac yn ymarferol. Roedd eraill o'r farn nad oedd y broses yn caniatáu i gryfderau na gwendidau pob opsiwn gael eu hystyried yn ddigon manwl, gan gynnwys mewn perthynas â nodau Llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

27. Cwestiynodd rhai ymatebwyr sut roedd y materion a nodwyd wedi cael eu trosi i'r gwahanol opsiynau, gan gynnwys yr 'Opsiwn a Ffefrir'. Mynegwyd y farn hefyd y byddai wedi bod yn well pe bai pob un o'r opsiynau wedi bod yn gyflawnadwy, gan arwain at nodi sawl opsiwn hybrid.

Cwestiwn 4b – A oes gennych sylwadau ynglŷn â'r asesiad o Opsiynau'r Fframwaith fel y mae wedi'i nodi yn Adroddiad Interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ag Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?



28. Nid atebodd mwyafrif mawr (77%) o'r ymatebwyr y cwestiwn hwn neu gwnaethant nodi nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r asesiad o Opsiynau'r FfDC fel y mae wedi'i nodi yn adroddiad interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ac adroddiad sgrinio yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd.

29. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr hynny a gyflwynodd sylwadau o'r farn bod yr asesiad yn ddigon trylwyr i fwrw ymlaen â phroses y FfDC, ond gwnaeth eraill sylwadau penodol ar yr opsiynau, yn aml drwy gyfeirio at eu hymatebion i gwestiynau blaenorol.

Cwestiwn 4c – A oes rhagor o opsiynau/dewisiadau amgen a ddylai gael eu hystyried ar gyfer cyfeiriad strategol y FfDC?



30. Cafwyd amrywiaeth o ymatebion i'r cwestiwn hwn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod yr opsiynau a gyflwynwyd yn cwmpasu'r rhan fwyaf o ddulliau o lunio strategaeth gyflawni i Gymru ac, felly, nad oedd angen unrhyw opsiynau pellach, tra bod eraill o'r farn bod yr opsiynau yn rhy syml a bod angen ystyried realiti'r farchnad ac ymateb yn briodol.

31. Cyfeiriodd rhai ymatebwyr at y posibilrwydd o addasu a/neu gyfuno'r opsiynau a gyflwynwyd. Awgrymodd ymatebwyr eraill opsiynau a oedd yn seiliedig naill ai ar gysylltedd a seilwaith (gan gynnwys trafnidiaeth) neu 'Ranbarthau'r Bargeinion Dinesig'.

32. Hefyd yn y cyd-destun hwn cyfeiriwyd at yr angen i gynnal adolygiad beirniadol o ddull y 'tri rhanbarth' cyn mabwysiadu'r FfDC, yn enwedig mewn perthynas â chyflawni'r amcanion 'gwledig'.

Cwestiwn 5a – A ydych yn cytuno â'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC?



33. Er mai dim ond 19% o'r ymatebwyr hynny a atebodd y cwestiwn hwn a nododd yn benodol eu bod yn 'cytuno', roedd cytundeb cyffredinol mai'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC oedd y dull gweithredu mwyaf realistig a chytbwys.

34. Cododd yr ymatebwyr nifer o faterion a oedd yn ymwneud â sut y câi'r Opsiwn a Ffefrir ei ddatblygu, yn enwedig yr angen am ddiffiniad gofodol yn ystod cam nesaf y broses o lunio'r FfDC. Roedd materion eraill yn cynnwys:

- yr angen am fwy o eglurder ynglŷn â'r tri rhanbarth arfaethedig a'u goblygiadau i Gynlluniau Datblygu Strategol (CDLlau);
- yr angen i bwysleisio pwysigrwydd rôl strategol dinasoedd yn y rhanbarthau ehangach;
- pryder nad yw'r Opsiwn a Ffefrir yn gwneud digon dros yr amgylchedd;
- pryder ynghylch y ffaith na chyfeirir yn benodol at realiti'r farchnad.

Cwestiwn 5b – A oes gennych sylwadau ynglŷn â'r asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC fel y mae wedi'i nodi yn Adroddiad Interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ag Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd?



35. Nododd tri chwarter (76%) yr ymatebwyr nad oedd ganddynt unrhyw sylwadau i'w gwneud ynglŷn â'r asesiad o'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC fel y mae wedi'i nodi yn adroddiad interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ac adroddiad sgrinio'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu ni wnaethant ateb y cwestiwn hwn.

36. Roedd yr ymatebwyr eraill yn cytuno, ar y cyfan, fod dull gweithredu synhwyrol ac ymarferol wedi'i fabwysiadu, yn ôl pob golwg, gyda'r Opsiwn a Ffefrir yn cynnwys elfennau mwyaf cadarnhaol yr opsiynau eraill. Fodd bynnag, lleisiwyd rhai pryderon ynglŷn â'r diffyg gwybodaeth amgylcheddol feintiol a'r angen am 'Adroddiad Amgylcheddol' er mwyn mynd i'r afael â hyn.

Cwestiwn 5c – A ydych yn credu bod sylw digonol yn cael ei roi i holl Amcanion y FfDC yn yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC?



37. Ar y cyfan, cymysg fu barn yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn ynghylch a yw sylw digonol yn cael ei roi i holl amcanion y FfDC yn yr Opsiwn a Ffefrir.

38. Roedd sawl ymatebydd o'r farn bod yr Opsiwn a Ffefrir, ar y cyfan, yn rhoi sylw digonol i amcanion y FfDC a'i fod yn eu trosi'n gyfeiriad polisi strategol. Cododd rhai ymatebwyr bryderon ynghylch agweddau penodol ar yr Opsiwn a Ffefrir mewn perthynas â'r amcanion, gan gynnwys yr angen i gryfhau'r cyfeiriadau at Gymru wledig, mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni.

39. Mynegodd ymatebwyr eraill y farn bod strwythur yr Opsiwn a Ffefrir yn ddryslyd mewn perthynas â'r amcanion ac nad yw'n addas i ddangos yn glir bod pob un o'r amcanion wedi cael sylw digonol.

Cwestiwn 5d – A ydych yn cytuno bod yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC yn ategu Gweledigaeth y FfDC a bod ganddo'r potensial i helpu i'w gweithredu?



40. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn o'r farn bod yr Opsiwn a Ffefrir yn ategu Gweledigaeth y FfDC a bod ganddo'r potensial i'w gweithredu. Mewn nifer o achosion cafodd y farn hon ei hamodi gan welliannau a awgrymwyd. Yn benodol, ystyriwyd y byddai angen i'r bolisïau fod yn fwy penodol, y byddai angen sicrhau y rhoddir yr un sylw i faterion megis yr amgylchedd, datgarboneiddio, datblygu economaidd a thai.

41. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen datblygu'r Weledigaeth a'r strategaeth ofodol ymhellach cyn y gellid gwneud asesiad llawn. Yn benodol, awgrymwyd y byddai dull gweithredu yn seiliedig ar bedwar rhanbarth yn fwy priodol i'w gwneud yn bosibl i Weledigaeth y FfDC gael ei gwireddu. Nododd rhai ymatebwyr hefyd fod angen cydnabod yn well bwysigrwydd gallu'r farchnad i gyflawni hefyd.

Cwestiwn 5e – A ydych yn cytuno ei bod yn bwysig bod y FfDC a Pholisi Cynllunio Cymru yn mabwysiadu strwythurau tebyg, sy'n ategu ei gilydd, i helpu i wneud cysylltiadau clir rhwng y ddwy ddogfen?



Cwestiwn 5f – Mae'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC yn cael ei ddatblygu o amgylch strwythur Polisi Cynllunio Cymru: Creu Lleoedd; Lleoedd Unigryw a Naturiol; Lleoedd Cynhyrchiol a Mentrus; Lleoedd Actif a Chymdeithasol; ac mae'n cynnwys thema ychwanegol ar Ranbarthau Cymru. A ydych yn cytuno â'r dull gweithredu hwn?



42. Gwnaeth yr ymatebwyr a atebodd gwestiynau 5e a 5f bwyntiau tebyg mewn ymateb i'r ddau gwestiwn.

43. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a atebodd y ddau gwestiwn o'r farn y byddai'n hanfodol i'r FfDC a PCC ategu ei gilydd ac y dylai hyn gael ei adlewyrchu yn eu strwythurau. Roedd yr ymatebwyr hefyd o'r farn ei bod yn bwysig osgoi dyblygu ac ailadrodd rhwng y ddwy ddogfen.

44. Roedd ymatebwyr eraill yn cytuno y dylai PCC a'r FfDC fod yn seiliedig ar ddull gweithredu cyson ond nid oeddent yn credu bod y strwythur arfaethedig yn briodol.

45. Mynegodd rhai ymatebwyr y farn, er bod angen cysylltiadau clir rhwng y ddwy ddogfen, fod eu strwythurau yn llai pwysig. Hefyd, mynegwyd y farn bod angen nodi swyddogaethau hollol wahanol y ddwy ddogfen yn glir yn y ddwy ddogfen a theilwra strwythur y naill ddogfen a'r llall at y diben hwnnw.

46. Roedd yr ymatebwyr hynny a nododd na ddylai fod gan y ddwy ddogfen strwythurau tebyg o'r farn y dylid seilio strwythur y FfDC ar fynd i'r afael â materion gofodol yn hytrach na'i "ystumio" i gyd-fynd â'r themâu a fabwysiadwyd ar gyfer PCC. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr hyn hefyd yn gwrthwynebu seilio strwythur PCC ar themâu Canlyniadau Cenedlaethol Cynaliadwy Creu Lleoedd.

47. At hynny, roedd rhai ymatebwyr o'r farn nad oedd rhannu'r FfDC yn 'themâu' yn fuddiol i sicrhau prosesau datblygu cynaliadwy a chreu lleoedd. Roedd eraill yn pryderu y gallai'r strwythur arfaethedig arwain at fabwysiadu dull 'seilo' o ddarllen y FfDC yn ôl y themâu, yn hytrach na dull 'system gyfan'.

Cwestiwn 5g - A ydych yn cytuno â'r Materion Gofodol a'r Cyfeiriad Polisi Strategol sy'n cael eu hamlinellu yn yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC?



48. Cymysg fu'r ymateb i'r materion gofodol a'r cyfeiriad polisi strategol a amlinellir yn yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC. Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi'r dull gweithredu a fabwysiadwyd, ar y cyfan, tra bod eraill o'r farn nad oedd yn ddigon penodol a'i fod ond yn cyflwyno dadansoddiad cyfyngedig o'r materion gofodol a'r cyfeiriad polisi. Cododd yr ymatebwyr faterion penodol hefyd yr oeddent am gael eglurhad yn eu cylch neu yr

oeddent o'r farn bod angen eu diwygio neu ymdrin â nhw mewn ffordd wahanol.

49. **Ffigurau tai** – Roedd nifer o ymatebwyr am gael eglurhad ynglŷn â natur y ffigurau a gâi eu cynnwys yn y FfDC a sut y byddent yn cael eu cymhwyso. Yn benodol, ystyriwyd na ddylai'r ffigurau rhanbarthol fod yn rhagnodol na chyfyngu ar ddyheadau Cynlluniau Datblygu Strategol. Awgrymwyd hefyd fod angen i'r fethodoleg ar gyfer cyfrifo'r ffigurau tai fod yn dryloyw a chael eu hadolygu a'u diweddaru'n rheolaidd.

50. **Rhanbarthau** – Roedd yr ymatebwyr a gododd y mater hwn am gael cyfiawnhad pellach dros ddull y tri rhanbarth. Yn benodol, mynegwyd pryder ynghylch Rhanbarth Canolbarth a De-orllewin Cymru yr ystyriwyd ei fod yn rhy fawr ac yn rhy amrywiol yn economaidd ac yn ddaearyddol at ddibenion cynllunio gofodol. Codwyd amheuon hefyd ynghylch mabwysiadu dull y Dinas-Ranbarthau am fod yr ymatebwyr o'r farn y byddai hyn yn adlewyrchu'r patrwm anheddu presennol ac na fyddent yn darparu sail effeithiol ar gyfer cynllunio defnydd tir.

51. **Materion gwledig** – Roedd rhai ymatebwyr yn pryderu ynghylch y ffordd y caiff ardaloedd gwledig eu trin o'u cymharu ag ardaloedd trefol, gan gyfeirio'n benodol at yr angen i sicrhau y caiff ardaloedd gwledig yr un cyfleoedd ar gyfer datblygu economaidd ag ardaloedd trefol. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn bod angen agenda gynhwysfawr ar gyfer Cymru wledig er mwyn mynd i'r afael â goblygiadau Brexit a newid yn yr hinsawdd.

52. Ymhlith y materion eraill a godwyd gan nifer o ymatebwyr roedd yr angen i wneud y canlynol:

- cyfeirio'n benodol at ddiogelu cronfeydd wrth gefn o fwynau rhag cael eu sterileiddio er mwyn sicrhau cyflenwad cyson i'r diwydiant adeiladu;
- rhoi mwy o bwyslais ar ffyniant economaidd a seilwaith trafnidiaeth cysylltiedig;
- rhoi lle mwy blaenllaw i seilwaith gwyrdd.

Cwestiwn 5h – A ydych yn cytuno bod yr Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC yn cynnig sail i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru sy'n cael eu hamlinellu yn ei strategaeth genedlaethol mewn ffordd gydgysylltiedig?



53. Ar y cyfan, roedd yr ymatebwyr yn cefnogi'r rôl y gallai'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC ei chwarae yn y broses o gyflawni'r blaenoriaethau a nodir yn strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, sef *Ffyniant i Bawb*, mewn ffordd gydgysylltiedig. Fodd bynnag, mynegodd nifer o ymatebwyr rai amheuon gan nodi, yn benodol, fod angen mwy o fanylion er mwyn iddynt allu llunio barn ar y mater hwn.

54. Roedd rhai ymatebwyr hefyd o'r farn bod angen eglurder ynglŷn â'r cydberthnasau rhwng y ddwy ddogfen ac â dogfennau lefel uchel eraill Llywodraeth Cymru a fyddai'n ategu gwaith cynllunio yng Nghymru yn y dyfodol e.e. *Polisi Cynllunio Cymru*, *Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru* a gwaith cynllunio seilwaith cenedlaethol). Nododd ymatebwyr hefyd fod angen gwaith trawslywodraethol er mwyn i'r FfDC allu gwneud cyfraniad ystyrlon.

55. Roedd ymatebwyr eraill o'r farn ei bod yn amheus a allai'r FfDC fod yn gyfrwng i gyflawni amcanion y strategaeth genedlaethol o gofio nad yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru wedi'u cyfyngu i faterion sy'n seiliedig ar ddefnydd tir. Mynegwyd y farn hefyd, er mwyn cyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, y byddai angen i'r FfDC fod yn fwy cefnogol i waith datblygu a chynnwys esboniad o rôl y farchnad o ran sicrhau ffyniant.

Cwestiwn 5i – A ydych yn credu y gellid llunio neu newid yr Opsiwn y Ffefrir er mwyn cael mwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?



56. Cyflwynwyd amrywiol safbwyntiau gan y nifer gymharol fach o ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn. Roedd rhai ymatebwyr o'r farn y byddai cyfeirio at ddiogelu a hyrwyddo'r Gymraeg yng Ngweledigaeth y FfDC yn ddefnyddiol i egluro sut y dylid ymdrin â'r mater hwn. Mynegodd ymatebwyr eraill y farn y dylid rhoi mwy o ystyriaeth i'r Gymraeg wrth benderfynu ar ffiniau'r rhanbarthau a dosbarthiad twf.

57. Mynegwyd y farn hefyd fod diffyg eglurder cyffredinol ynghylch sut y gall y system gynllunio, yn realistig, ystyried y Gymraeg.

58. Roedd y sylwadau eraill yn rhai cyffredinol yn hytrach na'u bod yn ymwneud yn benodol â newidiadau arfaethedig i'r Opsiwn a Ffefrir ar gyfer y FfDC.

Cwestiwn 6a – A ydych yn cytuno â'r newidiadau arfaethedig i'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd?



Cwestiwn 6b – A oes unrhyw newidiadau eraill y dylem eu gwneud i'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd?



59. Roedd y nifer fach o ymatebwyr a atebodd y cwestiynau hyn yn croesawu'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd a'r newidiadau a wnaed iddo yn fawr. Roedd y cyfranogiad helaeth a welwyd hyd yma hefyd yn cael ei ystyried yn galonogol.

60. Gwnaed rhai awgrymiadau ar gyfer gweithgarwch ymgysylltu yn y dyfodol, gan gynnwys y byddai'n ddefnyddiol pe bai'n canolbwyntio ar ardaloedd y byddai'r FfDC yn effeithio arnynt yn benodol. Nodwyd hefyd fod angen rhoi llawer o gyhoeddusrwydd i ddigwyddiadau.

61. O ran newidiadau pellach, nodwyd bod angen ysgrifennu dogfennau mewn iaith glir ac, yn benodol, fod angen defnyddio terminoleg syml a dileu acronymau. Hefyd, gofynnwyd am i holl ymatebion y rhanddeiliaid gael eu cyhoeddi ac i gynlluniau ar gyfer gweithgarwch ymsygylltu yn y

dyfodol gael eu cyhoeddi'n gynnar, gan gynnwys y broses graffu arfaethedig.

62. Awgrymwyd hefyd fod angen ystyried sut y byddai'r broses o lunio'r FfDC yn hwyluso cynigion o'r gwaelod i fyny sy'n deillio o gymunedau. At hynny, awgrymwyd y byddai ailenwi'r Datganiad yn 'Ddatganiad Cynnwys y Cyhoedd' yn helpu i gyfleu'r neges ei fod yn ymwneud â phryderon a dyheadau pobl yn cael eu hadlewyrchu'n uniongyrchol yn yr opsiynau a ddatblygwyd.

Ymateb Llywodraeth Cymru

63. Mae ystyriaeth lawn yn cael ei rhoi i bob un o'r materion a godwyd mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar y 'Materion, yr Opsiynau a'r Opsiwn a Ffefrir' wrth lunio'r FfDC drafft llawn er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno, sef cam nesaf y broses o'i lunio, fel y nodir ym mharagraff 6 uchod.

64. Mewn ymateb i'r materion a godwyd mae ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i Weledigaeth ac amcanion y FfDC a ph'un a ddylent gael eu disodli gan un datganiad o egwyddorion neu ganlyniadau cynllunio. Cydnabyddir y bydd angen cysylltu'r canlyniadau â'r strategaeth ofodol a'r polisïau thematig mewn ffordd gydlynol. Byddai dull gweithredu o'r fath yn rhoi mwy o eglurder, yn lleihau cymhlethdod ac yn golygu bod modd sicrhau bod gan y FfDC ffocws gofodol llawer cliriach â chanlyniadau pendant. Byddai'r dull hwn o weithredu hefyd yn parhau i sicrhau cysondeb â *Pholisi Cynllunio Cymru*, gan sicrhau nad yw'r FfDC yn creu ansicrwydd ynglŷn â'r egwyddorion a'r canlyniadau allweddol a bennwyd ar gyfer y system gynllunio drwy *Bolisi Cynllunio Cymru*.

65. Mae'r gydberthynas rhwng y FfDC a pholisïau lefel uchel eraill Llywodraeth Cymru megis Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru a'r rhai sy'n ymwneud â seilwaith cenedlaethol yn bwysig. Bydd gwaith yn parhau i gysoni'r cynlluniau hyn er mwyn sicrhau eu bod yn cydweithio i gyflawni nodau cyffredin.

66. Bydd y FfDC drafft llawn hefyd yn cynnwys mwy o fanylion am amrywiaeth o feysydd polisi a pholisïau penodol. Bydd y meysydd polisi yn canolbwyntio ar y canlyniadau gofodol sydd i'w cyflawni yn hytrach na chanlyniadau polisi cyffredinol y gellir eu cyfleu'n well ym *Mholisi Cynllunio Cymru*. Ni fwriedir i'r FfDC ailadrodd polisi a geir eisoes ym *Mholisi Cynllunio Cymru*.

67. Y nod yw y bydd y FfDC yn helpu i gyflawni meysydd polisi Llywodraeth Cymru sy'n effeithio ar leoedd a chydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r gwahanol bolisïau hyn er mwyn sicrhau'r canlyniadau mwyaf cadarnhaol posibl. Bydd hyn yn sicrhau bod y FfDC yn helpu i gyflawni elfennau perthnasol strategaeth genedlaethol Llywodraeth Cymru, *Ffyniant i Bawb*.

68. Datblygwyd yr opsiwn a ffefrir gan ddefnyddio'r dystiolaeth a gasglwyd drwy broses y FfDC, gan gynnwys ymgysylltu â'r cyhoedd, a chanfyddiadau'r Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig. Mae Adroddiad Interim yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig yn nodi sut mae tystiolaeth a chanfyddiadau wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir, sydd wedi ceisio cymryd yr agweddau gorau ar bob un o'r dewisiadau amgen, a aseswyd yn erbyn amcanion yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig ac sy'n cyflawni amcanion y FfDC. Ymhelaethir ar yr esboniad o'r ffordd y mae'r asesiad o'r opsiynau wedi llywio'r Opsiwn a Ffefrir a ddeilliodd o hynny, yn Adroddiad yr Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig a fydd yn ategu'r FfDC drafft.

69. Mae ystyriaeth hefyd yn cael ei rhoi i strwythur y FfDC mewn perthynas â *Pholisi Cynllunio Cymru*. Mae hyn yn cynnwys ystyried y cysondeb sydd rhwng mater 'creu lleoedd' a'r themâu polisi yng nghyd-destun y saith nod llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

70. Un o rolau allweddol y FfDC fydd pennu'r cyfeiriad ar gyfer Cynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, y bydd yn ofynnol iddynt gydymffurfio â'r FfDC. Bydd hyn yn sicrhau bod cynlluniau datblygu ar bob lefel yn gyson ac yn cydweithio i gyflawni'r canlyniadau gofynnol. Bydd i'r FfDC statws cynllun datblygu a gellir ei ddefnyddio'n uniongyrchol i nodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Drwy bennu cyfeiriad ar gyfer cynlluniau haen is a sefydlu fframwaith ar gyfer Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol, bydd y FfDC yn pennu cyfeiriad clir ar gyfer y system gynllunio ac yn dylanwadu ar y gwaith o gyflawni datblygiadau newydd.

71. Mae'r strategaeth genedlaethol, *Ffyniant i Bawb*, yn nodi bwriad Llywodraeth Cymru i gyflwyno dull newydd o ddatblygu a gweithredu polisi sy'n seiliedig ar ranbarthau. Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn datblygu hyn ac yn nodi tri rhanbarth. Bydd yr ôl troed rhanbarthol hwn yn sail i amrywiaeth o bolisïau Llywodraeth Cymru ac, er mwyn datblygu dull gweithredu trawslywodraethol cyson a chydgysylltiedig, ystyrir ei bod yn bwysig bod ardaloedd gofodol cyffredin. Mae Prif Swyddogion Rhanbarthol ar gyfer pob rhanbarth i gefnogi'r dull hwn o weithredu.

72. Nid yw'r tri rhanbarth yn y FfDC, o reidrwydd, yn darparu'r ôl troed rhanbarthol ar gyfer trefniadau cynllunio rhanbarthol yn y dyfodol ac, felly, nid ydynt yn rhagnodi ôl troed Cynlluniau Datblygu Strategol. Gall fod yn fwy priodol, mewn rhai rhanbarthau, i waith cynllunio rhanbarthol gael ei wneud mewn sawl ffordd, megis drwy gyfuniad o Gynlluniau Datblygu Strategol, Cynlluniau Datblygu Lleol ar y Cyd a Chynlluniau Datblygu Lleol. Byddai hyn yn ei gwneud yn bosibl i nodweddion unigryw a/neu faterion sy'n ymwneud â Bargeinion Dinesig/Twf lywio'r dull cynllunio rhanbarthol.

73. Mae dyfodol ardaloedd gwledig a rôl y system gynllunio o ran cefnogi'r ardaloedd hyn yn fater allweddol i'r FfDC. Yn y cyd-destun hwn, wrth lunio'r FfDC drafft, mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i faterion megis:

- gwahaniaethau rhwng ardaloedd trefol/gwledig;
- gweithgarwch economaidd;
- mynediad at wasanaethau a chyfleusterau;
- trafnidiaeth;
- cysylltedd digidol;
- tai a swyddi.

74. Cynigir y bydd y FfDC hefyd yn cael ei ategu gan sawl nodyn esboniadol er mwyn rhoi manylion cefndir am rywfaint o'r dystiolaeth sy'n cael ei defnyddio i'w lunio, er enghraifft yr amcangyfrifon cenedlaethol a rhanbarthol o'r angen am dai.

Y camau nesaf

75. Mae'r FfDC drafft wrthi'n cael ei lunio er mwyn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus arno. Yn ogystal ag ymgynghoriad ffurfiol ar y ddogfen, mae'r cam hwn yn y broses o lunio'r FfDC yn debygol o gynnwys rhagor o weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, gan gynnwys â rhanddeiliaid yn unol â'r Datganiad Cyfranogiad y Cyhoedd.

76. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y cynllun drafft ac unrhyw faterion eraill a godwyd yn ystod gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd, caiff y FfDC ei ailddrafftio cyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru graffu arno. Caiff y ddogfen derfynol ei chyhoeddi ar ôl i'r broses graffu hon gael ei chwblhau.

Atodiad 1 – Rhestr o'r ymatebwyr

- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Awdurdod Datgomisiynu Niwclear, d/o GVA
- Barratt David Wilson Homes (South Wales) Ltd
- Bwrdd Cynghori Ardal Fenter Eryri
- Cadw
- Cartrefi Cymunedol Cymru
- Coed Cadw
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol
- Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
- Comisiynydd y Gymraeg
- Coriolis Energy
- Cronfa Natur Fyd-eang Cymru
- Cyfeillion y Ddaear
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cynghrair Twristiaeth Cymru
- Cyngor Abertawe
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Cyngor Cymuned Sain Ffagan
- Cyngor Dinas Caerdydd
- Cyngor Dinas Casnewydd – Ymateb Swyddogion
- Cyngor Sir Caerfyrddin
- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir Fynwy
- Cyngor Sir Gwynedd;
- Cyngor Sir Penfro
- Cyngor Sir Wrecsam.
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Ynys Môn
- Cyngor Swydd Henffordd
- Cyngor Tref Bae Colwyn
- Cyngor Tref Castell-nedd
- Cyngor Tref Penarth
- Cylch yr Iaith
- Cymdeithas Cynhyrchion Mwynol
- Cymdeithas Dyfrffyrdd Mewnol
- Cymdeithas Ddinesig Caerdydd
- Cymdeithas Ddinesig y Fenni a'r Cylch
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Parciau Gwyliau a Chartrefi Prydain
- Cymdeithas Porthladdoedd Prydain
- Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad Cymru
- Cymdeithas yr Iaith
- Cymorth Cynllunio Cymru
- David Thorpe

- Dŵr Cymru
- Dyfodol i'r Iaith
- EDF Energy
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Geoconservation Cymru
- Glandŵr Cymru, yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru
- Gofal a Thrwsio Cymru
- Grid Cenedlaethol
- Grŵp Cynllunio Strategol De-ddwyrain Cymru
- Grŵp Gogledd-orllewin Caerdydd
- Grŵp Gweithredu Coed a Dylunio
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM yng Nghymru
- Innogy Renewables UK Ltd
- Lichfields
- Parciau Cenedlaethol Cymru
- Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru (Cynghorau Sir Ceredigion a Phowys)
- Promoters of St Brides New Settlement Opportunity
- Prospect
- R W Ebley
- Redrow homes (South Wales) Ltd
- Renewable UK Cymru
- Rhwydwaith Calon Cymru
- Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol
- SoDdGA Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
- SP Energy Networks
- Stephen Edwards
- Sustrans Cymru
- Taylor Wimpey South Wales
- Un Llais Cymru
- Vanttenfall Wind Power Ltd
- Westinghouse UK
- WHIASU Iechyd Cyhoeddus Cymru
- Y Gynghrair dros Dirweddau Dynodedig Cymru
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Ymddiriedolaeth Adar y Gwlyptir
- Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
- Ymgyrch y Parciau Cenedlaethol
- Yr Awdurdod Glo
- Yr Ymddiriedolaeth Theatrau
- Yr Ymgyrch dros Gwrw Go Iawn

Gofynnodd un ymatebydd am gael aros yn ddienw.

Mae copïau o'r ymatebion ar gael ar gais gan yr Arolygiaeth Gynllunio, Llywodraeth Cymru.